# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Cyfarfod Hybrid - Zoom - Neuadd y Sir**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2023**

Amser y Cyfarfod
**12.00 pm**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2023, 2 Mawrth 2023 ac 18 Mai 2023 fel cofnodion cywir.
(Tudalennau 1 - 52)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CHAIR'S ANNOUNCEMENTS |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD |
|---|---|

7.1. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Cysylltu Powys gan David Williams**

Beth all preswylwyr eu gwneud i atal Cyngor Sir Powys rhag rhoi caniatad cynllunio newydd ac ar gyfer estyniadau i Unedau Dofednod Dwys (IPUs), yn sgil y difrod y maen nhw'n eu hachosi i gyrsiau dwr a'r potensial i ledaenu'r Ffliw Adar?

(Tudalennau 53 - 54)

7.2. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach oddi wrth Alison Jones**

Mae'n siwr bod hyn wedi cael ei godi o'r blaen. Fodd bynnag, mae'n dal i fy synnu cyn lleied mae Powys yn ei wneud i gefnogi ein trefi a busnesau lleol yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig.

Rwy'n darllen/clywed yn aml am gynghorau eraill yn cynnig cynllun parcio am ddim er enghraifft ar ddydd Sadyrnau ym mis Rhagfyr. Oni allai Powys ddangos ychydig o ewyllys da a gwneud yr un peth eleni?

(Tudalennau 55 - 56)

7.3. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Llewyrchus gan Colin Olivant**

Yma ym Mhowys mae gennym Ysgolion gwych sy'n addysgu plant ag Anghenion Arbennig, fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'n mynd ymhellach na hynny. Unwaith y bydd plant yn gadael yr ysgolion hynny mae'r opsiynau'n gyfyngedig o ran colegau preswyl, mae'n rhaid i ni neidio dros nifer o rwystrau a chwblhau gwaith papur diddiwedd dim ond i gael lle addas sydd y tu allan i'r Sir. A yw Powys wedi ystyried cael Coleg preswyl fel Coleg Elidyr yn Llanymddyfri ym Mhowys lle gall plant ag Anghenion Addysgol Arbennig fynychu? Byddai hyn yn lleihau'r straen a'r pwysau y mae rhieni'n eu hwynebu wrth wneud cais a chael gwybod yn anffodus ei fod y tu allan i'r Sir. Mae hyn yn fy marn i yn cyfyngu ar addysg bellach i blant AAA. Rwy'n deall bod Powys eisiau i'w harian aros ym Mhowys ond nid yw NPTC yn cynnig yr hyn sydd ei angen drwy'r amser ac fel mae'r teitl yn dweud "Castell-nedd Port Talbot" mae'r arian

yn dal i fynd allan o'r Sir.
(Tudalennau 57 - 58)

7.4. **Cwestiwn i'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Powys Decach oddi wrth Phoebe Jenkins**

Mae trigolion lleol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai, boed hynny'n brynwyr tro cyntaf neu'n deuluoedd sydd angen rhagor o le. Nid oes unrhyw ddatblygiadau tai fforddiadwy newydd, nac unrhyw eiddo presennol ar gael.

Mae eiddo sydd ar y farchnad yn fwy na gallu ariannol y rhai sy'n gweithio yn yr ardal. Mae eiddo 3 ystafell wely yn nhref Y Gelli Gandryll yn dechrau ar £300k, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn agosach neu dros £400k. Os cymerwch gyflog cyfartalog teulu o ddau oedolyn, a blaendal mawr, mae dal yn amhosibl ei gyrraedd.

Mae eiddo sydd o fewn y gyllideb, fel arfer yn gyn-gartrefi cyngor, sydd hefyd yn anodd iawn i gael morgais arnynt, gyda'r rhan fwyaf o fenthycwyr yn gwrthod ceisiadau. Ymhlith y rhesymau a ddyfynnir yw isadeiledd, lleoliad ac agosrwydd at unedau diwydiannol. Os na ellir cael morgais ar gyfer yr unig tai fforddiadwy, nid ydynt o fewn cyrraedd!

Ar ben hyn, gan fod gan y rhan fwyaf o'r teuluoedd hyn gynilion ariannol, nid ydynt yn gallu cael tai cymdeithasol (am lawer o resymau). Hefyd, mae rhentu preifat ar gyfer cartrefi teulu mwy o faint yn llawer uwch na'r hyn sy'n fforddiadwy. Felly, maent yn aml yn cael eu gadael heb fawr ddim dewis ond symud allan o'r ardal, a fydd yn cael effeithiau cymdeithasol ac economaidd enfawr ar gymunedau. Sut y bydd Cyngor Sir Powys yn helpu teuluoedd lleol i aros yn eu trefi cartref?
(Tudalennau 59 - 62)

| 8. | TROSGLWYDDIADAU REFENIW |
|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau sydd angen eu cymeradwyo gan y Cyngor.

(Tudalennau 63 - 64)

| 9. | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|

Ystyried adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.
(Tudalennau 65 - 84)

| 10. | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
|---|---|

Ystyried adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.
(Tudalennau 85 - 134)

| 11. | LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2022 - 23 |
|---|---|

Derbyn adroddiad y Pennaeth Cyllid, er gwybodaeth.
(Tudalennau 135 - 144)

| 12. | RHYBUDD O GYNNIG - TWRISTIAETH GYNALIADWY - NAWS AM LE |
|---|---|

Ar sawl achlysur, mae'r Cyngor wedi datgan pwysigrwydd cynaliadwyedd, ac felly mae'n nodi ac yn llongyfarch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar fabwysiadu Bannau Brycheiniog fel ei enw swyddogol, gan adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg a breuder cynaliadwyedd yr iaith fel iaith gymunedol a thrwy hynny, efelychu polisi'r Cyngor hwn, un a gynigiwyd ac a basiwyd yn dilyn cynnig gan y grŵp Ceidwadol.

Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod cymaint o fentrau yn y sector twristiaeth yn Ne Powys wedi dweud yn ddiweddar yr hoffent weld gweithrediadau dwyieithog yn ardal Bannau Brycheiniog. Fodd bynnag, nodwn **nad oes gan yr un ohonynt** rhan Gymraeg ar eu gwefannau ac nid oes ganddynt gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r Cyngor eisoes yn credu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yn ein cymunedau, a bod ein henwau Cymraeg lleol yn adlewyrchu'r cyfoeth hanesyddol, ein treftadaeth, ein cynefin a'i fod yn adlewyrchu ein blaenoriaethau cynaliadwyedd presennol gan roi Naws am Le ii'r ardal dan sylw.

Mae'r Cyngor hwn yn datgan:-

1. O ystyried y brwdfrydedd newydd hwn o blaid dwyieithrwydd, rydym yn annog y sector twristiaeth i ddefnyddio enwau Cymraeg brodorol ar gyfer mentrau masnachol newydd er mwyn sicrhau'r egwyddor o Naws am Le i'r eithaf, a thrwy hynny wneud y gorau o'r hyn sy'n gwneud yr ardal dan sylw mor unigryw ac arbennig. Hefyd eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg am ddim, 'Helo Blod' sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru, er mwyn darparu gwasanaeth a delwedd ddwyieithog, a'u bod yn defnyddio cynnyrch bwyd a diod o Gymru.
2. Gofynnwn i adran dwristiaeth Cyngor Powys a'r partneriaid yn y sector hwnnw, megis Cynghrair Twristiaeth Cymru, Twristiaeth Canolbarth Cymru ac eraill i dynnu sylw holl ddarparwyr y sector twristiaeth at fodolaeth gwasanaeth Helo Blod a'u bod yn ymarfer hyn fel mater o arfer da.
3. Gofynnwn i'r adran gynllunio fabwysiadu'r egwyddor hon wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio yn y maes gwasanaeth hwn ac i dynnu sylw asiantau ac ymgeiswyr at wasanaeth Helo Blod. Rydym yn atgoffa pob menter twristiaeth sy'n derbyn grantiau cyhoeddus neu gontract o Bowys neu'r sector cyhoeddus, o'r disgwyliad eu bod yn cydnabod y Gymraeg, a'u bod yn gweithredu yn unol â safonau iaith y Cyngor.
4. Rydym yn annog dinasyddion i ddefnyddio enwau Cymraeg, hanesyddol a chyfredol ar dai ac adeiladau ac atal yr arfer o gael gwared ar enwau tai Cymru.

Cynigydd: Cynghorydd Elwyn Vaughan
Eilydd: Cynghorydd Bryn Davies

| Ymateb Cyllid |
|---|

Ar ol trafod y cynnig gyda Thwristiaeth a Chynllunio i wirio eu gallu/capasiti i gefnogi'r cais i "annog" a "thynnu sylw at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg, maen nhw wedi cadarnhau bod llawer o'r hyn sy'n cael ei gynnig yn cael ei wneud yn barod a lle gellir gwneud rhai gwelliannau maen nhw wedi cadarnhau y gallent gael eu datblygu o fewn yr adnoddau sy'n bodoli eisoes.

| 13. | RHYBUDD O GYNNIG - Y LLUOEDD ARFOG A'R ARGYFWNG COSTAU BYW |
|---|---|

Mae gan ein lluoedd arfog hanes hir a balch o wasanaeth ac ymroddiad i'r genedl hon. O deithiau i ochr ddwyreiniol NATO i gadw gwasanaethau hanfodol yn rhedeg gartref, mae personél y gwasanaeth yn parhau i wasanaethu ein gwlad gyda dewrder a rhagoriaeth. Maen nhw'n cael eu siomi gan Lywodraeth y DU. Ar ôl degawd o doriadau cyflog mewn termau real, yr argyfwng costau byw, a'r oedi yn y dyfarniad cyflog i'r Lluoedd Arfog eleni, rydym bellach yn gweld bod Personél y Lluoedd Arfog yn cael eu gorfodi i ddefnyddio banciau bwyd[1], tra bod elusennau a chymdeithasau catrodol y lluoedd arfog yn parhau i ddarparu grantiau costau byw a thalebau bwyd i gyn-filwyr a'u teuluoedd[2]

Mae galw ar bersonél y lluoedd arfog fel mater o drefn i wneud gwaith llanw am ddiffyg gwytnwch ar draws y sector cyhoeddus ac i wneud gwaith llanw gyfer rhai gwasanaethau hanfodol yn ystod gweithredu diwydiannol. Maen nhw'n gwneud hyn yn y dull ymroddedig a phroffesiynol y byddem yn ei disgwyl gan ein lluoedd. Heb hawl i streicio, dyletswydd foesol eu harweinwyr yw cynnal Cyfamod y Lluoedd Arfog, a chyfrifoldeb cyrff etholedig yw cynnal eu rhan hwy o'r rhwymedigaeth hon a mynnu bod personél ein lluoedd arfog a'u teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth y maen nhw eu hangen ac yn eu haeddu.

**Felly, mae'r cyngor hwn yn nodi:**

- Ei fod yn destun pryder mawr iddo bod personel y lluoedd arfog yn gorfod troi at fanciau bwyd.
- Mae'n destun pryder mawr bod elusennau y lluoedd arfog a chymdeithasau catrodol yn parhau i orfod darparu grantiau costau byw a thalebau bwyd i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

**Mae'r cyngor hwn yn credu:**

- Y dylwn gondemnio esgeulustod Llywodraeth y DU o'n personel lluoedd arfog yn y ffordd cryfaf posibl.

**Mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU:**

- I ryddhau adroddiad y bwrdd adolygu cyflogau'r lluoedd arfog 2023/4 a'r dyfarniad cyflog sydd eisioes yn hwyr.

[1] Revealed: The military personnel turning to food banks as cost of living crisis hits | UK News | Sky News

[2] Cost of Living Grants (britishlegion.org.uk)

- Darparu cymorth ariannol sylfaenol ychwanegol i bersonel y lluoedd arfog trwy gapio taliadau bwyd a llety am y 12 mis nesaf.

  Cynigydd: Cynghorydd David Meredith
  Eilydd: Cynghorydd Sarah Williams

| **Ymateb Cyllid**<br>Mae’r cynnig arfaethedig yn gofyn i’r cyngor ysgrifennu at Lywodraeth y Du, a fydd yn golygu rhywfaitn o amser swyddog y gellir ei wneud o fewn yr adnoddau presennol. |
|---|

| 14. | RHYBUDD O GYNNIG - ADOLYGIAD MEYSYDD PARCIO |
|---|---|

**Cefndir**
Cytunodd y Cyngor Sir i gyrraedd y targed incwm ychwanegol o £50,000 ar gyfer taliadau parcio o fewn ei strategaeth gyllideb 2023-24 drwy gynyddu prisiau parcio hyd at 40% yn unol â'r tabl isod,

Byddai cymhwyso'r taliadau hyn i ffigurau defnydd 2021-22 isod yn golygu cynnydd mewn incwm i'r awdurdod o oddeutu £317,000, chwe gwaith yn fwy na'r targed a ddynodwyd.
Ochr yn ochr â chynyddu'r ffioedd ar gyfer y tri band amser is gwnaed y cynnig ac fei’i dderbyniwyd i gael gwared ar yr opsiwn o docyn "hyd at awr" yn y meysydd parcio arhosiad hir niferus ledled y sir, gan arwain at gynnydd yn y pris i rywun sy’n galw heibio’r siopau am ychydig o bethau neu goffi cyflym gyda ffrindiau o £1.00 i £2.50 cynnydd o 150%.
Mae'r tabl yn dangos bod 40% o'r tocynnau Parcio a brynwyd rhwng Awst 2021 a Gorffennaf 2022, blwyddyn pan oedd y Wlad yn dal yn dod allan o bandemig COVID 19, ar gyfer arosiadau o hyd at awr, gyda thua 80% o'r tocynnau hyn yn cael eu prynu mewn meysydd parcio arhosiad hir gan olygu y byddai 272,000 o docynnau yn gweld cynnydd yn y pris o 150% gan roi cynnydd pellach o £299,000 mewn incwm. Pan fydd hyn yn cael ei ychwanegu at y £317,000 a nodwyd uchod, bydd cyfanswm o £616,000 o incwm ychwanegol yn erbyn y targed o £50,000, cyn unrhyw addasiad ar gyfer gostyngiad yn nifer y tocynnau a brynwyd. Mae'n debygol y byddai'r flwyddyn lawn, heb fod yn ystod y pandemig, gyda gwerthiant tocynnau ychydig yn uwch.

Gyda chynnydd mor sylweddol mewn prisiau, mae'r awdurdod wedi disgwyl ac wedi cyfrif am ostyngiad yn nifer y tocynnau a brynwyd, yn enwedig y rhai yn y ddau fand amser isaf. Mae aelodau sy'n cynrychioli'r trefi mwy yn yr awdurdod ac fel yr adroddwyd yn y wasg leol yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd yn nifer y cerbydau sy'n cael eu parcio ar y strydoedd ac o fewn ystadau lleol ac mae llawer o siopwyr yn y trefi wedi dweud eu bod wedi gweld gostyngiad mewn masnach a oedd yn cyd-fynd â chyflwyno'r taliadau parcio newydd.

**Cynnig**
Er mwyn cefnogi bywyd economaidd canol ein trefi, lleihau lefel y parcio amhriodol yn ein trefi ac ystadau a chynyddu lefel yr incwm parcio a dderbynnir gan y sir, cynigir :-

1. I beidio newid y taliadau parcio yn y meysydd parcio arhosiad byr neu hir dynodedig ar hyn o bryd.

2. Bod adolygiad llawn o daliadau a chategoriau meysydd parcio yn cael ei gynnal o holl feysydd parcio sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor Sir o fewn yr Awdurdod gyda chanlyniadau ac argymhellion yr adolygiad hwnnw yn cael eu dwyn yn ol i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 5 Hydref.

3. Bod swyddogion, fel rhan o'r adolygiad y manylir arno yn 2 uchod, yn darparu amcangyfrif o gost llawn yr incwm meysydd parcio ar gyfer 2023-24 i aelodau o'i gymharu â'r gyllideb sylfaenol ynghyd â manylion o unrhyw drosglwyddiadau cyllideb fyddai eu hangen i ailalinio'r cyllidebau perthnasol.

Cynigydd: Cynghorydd Gareth E Jones
Eilydd: Cynghorydd Graham Breeze

| **Sylwadau Cyllid** |
|---|
| Er mwyn cynnal adolygiad erbyn mis Hydref mae'r gwasanaeth yn cynghori y byddai angen iddynt gyflogi Ymgynghorwyr gydag arbenigedd mewn rheoli parcio. Byddai'r gost oddeutu £40k. Gellid ariannu hyn o unrhyw or-gyflawni'r incwm o fewn y gwasanaeth. |

| **15.** | **RHYBUDD O GYNNIG - APELIADAU CLUDIANT YSGOL** |
|---|---|

Ym mis Hydref 2022 cefnogwyd fy nghynnig yn unfrydol gan y Cyngor i ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran cludiant ysgol am ddim lle gellid ei ddarparu heb unrhyw gost ychwanegol i'r cyngor. Ers hynny, rwyf wedi bod yn ymladd nifer o achosion unigol ar gyfer preswylwyr sydd eisoes â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol o'u dewis a lle, am resymau daearyddol, mae bysiau'n rhedeg i ddau gyfeiriad. Mae swyddogion wedi dadlau, os ydyn nhw'n hyblyg mewn un lle, y bydd yn rhaid iddyn nhw fod yn hyblyg mewn mannau eraill hefyd (siawns mai dyna'r pwynt os gellir bodloni'r meini prawf o ddim cost ychwanegol) ac wedi gwrthod apeliadau. Mae rhannu teuluoedd yn achosi pryder mawr i rieni a phlant a bydd yn cyfyngu'n ddifrifol ar gyfleoedd y disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol. Os na all aelodau gael rhyw fath o ddylanwad ar y broses gwneud penderfyniadau'r cyngor, beth yw'r pwynt o fod yma.

Felly, rwy'n galw ar aelodau i gefnogi cynnig i argymell i'r cabinet bod grŵp trawsbleidiol bach o gynghorwyr yn delio ag apeliadau cludiant ysgol, gyda chymorth swyddog a all arwain aelodau ynghylch unrhyw gostau neu faterion ychwanegol posibl a allai godi o'u penderfyniad, ac y dylai hyn fod yn berthnasol i unrhyw apeliadau sydd ar ol ar gyfer derbyniadau 2023 ac i ganiatáu ail-wrandawiad o unrhyw apeliadau cam 2 ar gyfer y flwyddyn hon sydd eisoes wedi cael eu gwrthod.

Cynigydd: Cynghorydd Lucy Roberts
Eilydd: Cynghorydd Gwynfor Thomas

| Sylwadau Cyllid |
|---|
| Mae'n annhebygol y bydd y gost o gynnal yr apeliadau'n newid yn sylweddol o ganlyniad i bwy sy'n mynychu. Mae canlyniad y gwrandawiad yn cael ei gyfeirio gan bolisi a lle mae hyblygrwydd yn ddibynnol ar yr egwyddor o ddim cost ychwanegol, nid oes unrhyw effaith ariannol. |

| 16. | RHYBUDD O GYNNIG - CYNNIG GAN LYWODRAETH CYMRU A CHYFOETH NATURIOL CYMRU I WAHARDD RHYDDHAU ADAR HELA YNG NGHYMRU |
|---|---|

Mae Cyngor Sir Powys yn galw ar Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i dynnu eu cynnig yn ôl i wahardd rhyddhau adar hela yng Nghymru, gan ganiatáu rhyddhau drwy drwydded yn unig, a fydd yn effeithio'n fawr ar bobl Cymru. Ni chyflwynwyd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau'r cynnig hwn gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod manteision economaidd, cadwraeth a lles saethu gêm i Gymru, ei werth i gymunedau gwledig, ein treftadaeth, ein diwylliant a'r iaith Gymraeg.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Aled Davies
Eiliwyd gan y Cynghorydd Iain McIntosh

| Sylwadau Cyllid |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r cyngor o ganlyniad i'r cais hwn. |

| 17. | RHYBUDD O GYNNIG - FFOSFFADAU |
|---|---|

Mae'r cyngor hwn ac awdurdodau cyfagos yng Nghymru a Lloegr wedi wynebu cyfyngiadau cynllunio difrifol oherwydd y lefelau ffosffad yn ein hafonydd. Mae hwn yn fater cenedlaethol sy'n cael ei basio o gwmpas, ac mae cymunedau'n cael eu rhannu ar bwy sy'n gyfrifol a sut i ddelio â'r mater.

Rydym wedi clywed droeon bod crynodiadau uchel o ffosfforws yn ein hafonydd o ganlyniad i arferion amaethyddol, dŵr ffo o ardaloedd trefol, systemau septig sy'n gollwng neu ollyngiadau o weithfeydd trin carthion, i enwi dim ond ychydig y mae'r cyhoedd yn eu dyfynnu fel yr achos. Mae'r holl systemau hyn yn gweithredu'n bennaf o fewn y deddfau a roddwyd iddynt, ac mae hynny'n caniatáu iddynt ollwng i mewn i'n hafonydd. Mae angen i ni gydnabod eu bod yn gweithredu o fewn y rheolau a osodwyd gan y llywodraeth genedlaethol.

Er mai ychydig iawn o effaith y mae ddatblygiadau o'r fath yn eu cael yn unigol, gyda'i gilydd maent yn achosi difrod enfawr i'n hamgylchedd, ac yn effeithio ar y broblem prinder tai sy'n wynebu ein sir yn ogystal â datblygiadau eraill.

Edrychwn ar Gyfoeth Naturiol Cymru, a ddylai, fel rheolwr ein hadnoddau Cymreig naturiol, fonitro ein hafonydd. Ei ddiben yw "dilyn rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol" a "chymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" fel y nodir yn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Bydd monitro ansawdd dŵr yn briodol, a gorfodi polisi amgylcheddol newydd yn allweddol wrth leihau effaith ffosffadau ar ein hafonydd. Dywedir bod angen i Gyfoeth Naturiol Cymru gyflogi 85 o staff ychwanegol i gyflawni'r gwasanaeth monitro cadarn angenrheidiol, ond mae angen y cyllid gan Lywodraeth Cymru arnynt i allu gwneud hyn. Nid oes gan Gyngor Sir Powys ei hun y pŵer na'r gallu i achosir newid. Nid yw cartrefi'n cael eu hadeiladu, mae cymunedau ym Mhowys ar stop, ac mae angen gwneud rhywbeth i'w cefnogi.

Y cynnig

1. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod fframwaith monitro clir ar gyfer llygredd afonydd.
2. Rydym yn galw ar Lywodraethau Cenedlaethol i gyflymu'r cyllid ar gyfer ein cyrff monitro fel Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn eu galluogi i fonitro a gorfodi lefelau diogel o fewn ein hafonydd.
3. Rydym yn galw ar Dŵr Cymru i gyflymu ei fuddsoddiad yn y system garthffosiaeth a'u rhaglen uwchraddio.

Cynigydd: Y Cynghorydd Gareth Ratcliffe
Eilydd: Y Cynghorydd Corinna Kenyon-Wade

| **Sylwadau Cyllid** |
|---|
| Tybir y byddai’r cynnig yn cael ei gefnogi gan ohebiaeth i Lywodraeth Cymru ac y byddai’r |

adnodd staff yn fach iawn ac y gellir ei wneud o fewn cyllidebau presenol.

**Sylwer bydd ffotograff grwp yn cael ei gymryd amser cinio.**